Clwb peldroed plant Llandeilo junior football club
www.teigrodteilo.org.uk

Cadeirydd/ Chair: Selby LeRoux 01558 685951
Trysorydd/ Treasurer: Tony Gallafant 01558 685907
Ysgrifennydd/ Sec.: Colin Henderson 01558 824177
Swyddog Cyswllt/ Communications : Helen Scutt 01558 823457
Swyddog Lles/ Welfare: Mike Todd 01269 842468
Hyfforddi/ Coaching: Aled Llyr 01558 822339

CYLCHLYTHYR HAF
GORFFENNAF 2007

Croeso i ail rifyn cylchlythyr y clwb. Gobeithiwn fod y cynnwys yn rhoi gwybod ichi am yr hyn sy'n digwydd yn y clwb. Ers y cylchlythyr diwethaf, mae llawer wedi digwydd. Erbyn hyn, mae gennym bymtheg o hyfforddwyr cymwysedig, llawer o gyfarpar newydd, 89 o aelodau a phwyllgor newydd fel y dengys uchod. Ar hyn o bryd, mae'r strwythur newydd yn profi'n llwyddiant ond gellir pasio unrhyw adborth, da neu wael ymlaen at un o aelodau'r pwyllgor (byddwch yn garedig os gwelwch yn dda!)

Achrediad y Clwb

O dan reolau newydd a ddaeth i rym gan yr FAW, bydd system newydd o achrediadau clybiau yn cael ei chyflwyno ym mis Medi. Pwrpas yr holl system yw gwella safon clybiau pêl droed ar draws Cymru. Y ddau brif nod yw gwella diogelwch a lles y plentyn a gwella safon yr hyfforddi.

Mae yna bedwar lefel, Sylfaenol, Efydd, Arian ac Aur. Rydym ni'n anelu at y lefel Efydd. Mae angen i ni weithredu nifer o bethau gan gynnwys cyfansoddiad, datganiad polisi ar ddiogelwch, lles a mwynhad, datganiad ar gydraddoldeb a dadansoddiad o rannau'r pwyllgor. Rydym hefyd wedi gorfod danfon ein holl hyfforddwyr ar gwrs arweinyddion pêl droed a gafodd ei gynnal gan yr FAW. Bu'n llawer o waith ar y cyfan ond y gobaith yw y bydd yn creu clwb gwell ar gyfer yr aelodau.

Cyllid y Clwb

Mae'r cyfrifon ar hyn o bryd yn edrych yn ddigon hwylus ac yn ystod y flwyddyn, buom yn ddigon ffodus i gael arian ychwanegol ar gyfer y clwb. Fe dderbyniom siec oddi wrth Bwyllgor Sportlot am £750.00 a fu'n gymorth mawr i ariannu llawer o hyfforddi newydd ar gyfer yr hyfforddwyr. Rydym wedi sicrhau nawdd

oddi wrth rai busnesau lleol ar gyfer gwisg newydd y tîm. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael ein gwisg pêl droed newydd.
Y noddwyr yw:

Davies Richards, Llandeilo
Price Papers, Llandeilo
Mike Heath, Rhydaman
Nigel Williams, Llandeilo
Mike Rees, Llandeilo

Rydym yn hynod ddiolchgar am eu cefnogaeth.

Buom hefyd yn ddigon ffodus o gael £250.00 gan Urdd Menywod Llandeilo. Diolchwn o waelod calon iddyn nhw hefyd.

Mae noson o godi arian wedi ei threfnu ar gyfer yr Hydref. Y nod yw codi digon o arian ar gyfer mân bethau megis yswiriant, tâl mynediad i'r gynghrair, tâl mynediad cystadlaethau, hyfforddiant a chyfarpar. Bydd manylion pellach ar gael yn fuan.

Adroddiadau'r Hyfforddwyr

Blwyddyn 1 a 2
Bu'n flwyddyn lwyddiannus i flynyddoedd 1 a 2 yng Nghlwb Pêl Droed Teigrod Teilo.
Mae'r plant wedi gwneud yn arbennig o dda wrth wella eu sgiliau pêl a'u hymwybyddiaeth wrth chwarae'r gêm ac yn bwysicaf oll, maent wedi cael amser da yn chwarae pêl droed! Mae eu brwdfrydedd wrth chwarae yn amlwg ac felly yn gwneud fy swydd fel hyfforddwr yn un bleserus dros ben.
Yn anffodus, ni fu'r tywydd yn garedig iawn - roedd un sesiwn ymarfer arbennig yn aros yn y cof, gan mai cysgodi a wnaethon rhag y cesair yn y pafiliwn criced a chawsom ychydig o sesiynau wedi eu gohirio oherwydd y tywydd. Hoffwn ddiolch i'r rhieni am fod yn gefnogwyr mor amyneddgar yn y sesiynau ar nos Lun ac am fod mor ddealladwy pan fu'n rhaid i ni ohirio.
Da iawn am eich llwyddiant yn y twrnameintiau - mae'r plant o dan 7 wedi chwarae'n arbennig o dda wrth chwarae yn erbyn timoedd eraill ac rwy''n ffyddiog y bydd y rhai ym mlwyddyn 2 y flwyddyn nesa yn parhau i wneud hynny. Gobeithio y byddwch oll yn cael gwyliau haf da!
Teresa Williams

Blwyddyn 3 a 4
Mae blynyddoedd 3 a 4 wedi dangos gwellhad cyson yn ystod y flwyddyn a buont wastad yn ddigon bywiog! Mae sesiynau hyfforddi ar nos Lun wedi golygu fod pawb yn gwella eu sgiliau (gan gynnwys yr hyfforddwyr).

Dechreuodd y tymor i flynyddoedd 3 a 4 yn gystadleuol iawn gyda thwrnameintiau bychan ar yr Astroturf yn Johnstown. Profodd y rhain i fod yn llawer o hwyl, oherwydd eu bod wedi cael eu trefnu mor dda.
Aeth un o'n timau i'r twrnameintiau lleol. I ddechrau, roeddent yn anodd ond yn raddol bach, fe wellodd pethau a chyrhaeddom y rownd gynderfynol yng nghystadleuaeth carnifal Rhydaman ond colli 1-0 i Saron yn dilyn cic rydd ddadleuol.

Blwyddyn 5 a 6
Bu'r haf yn gyfnod llwyddiannus iawn i garfan Dan 11 oed Teigrod Teilo. Llwyddodd y tîm Dan 11 i ddisgleirio yn nhair prif Dwrnamaint yr Haf ac ennill edmygedd y Clybiau eraill am arddull eu chwarae, sgiliau'r chwaraewyr a'u hymddygiad.

- Ennill Twrnamaint Bancffosfelen - curo Tymbl yn y rownd derfynol.
- Twrnamaint Llanybydder - ail - colli yn y rownd derfynol ond curo timau gorau Ceredigion ar hyd y ffordd.
- Ennill Twrnamaint Dyffryn Aman - heb os, hwn oedd uchafbwynt y tymor yn curo timau Aman Utd, Saron, Camford a Dafen - timau gorau Dyffryn Aman a Llanelli!
- Fe lwyddodd y tîm Dan 10 i gyrraedd y rownd gynderfynol yn Nhwrnamaint Dyffryn Aman.

Llongyfarchiadau i bob un o chwaraewyr y garfan am roi Teigrod Teilo ar y map pêl-droed yn Sir Gaerfyrddin a thu hwnt! Mae'r llwyddiant wedi dod trwy waith caled, dros flynyddoedd o ymarfer a hyfforddi - diolch i'r chwaraewyr a'r hyfforddwyr am eu hymroddiad ac i'r rhieni am eu cefnogaeth. Mwynhewch y llwyddiant -rydych chi'n ei haeddu!
Bydd llawer o'r bechgyn yn symud i'r tîm Dan 12 flwyddyn nesa ond rydym yn hyderus y gall y tîm Dan 11 adeiladu ar lwyddiannau eleni a chael blwyddyn arall i'w chofio. Diolch.
Aled Llyr / Mark Swindells

<u>Tymor Nesaf</u>

Meysydd Chwarae Tregib
Rwy'n siŵr bod nifer ohonoch eisoes yn gwybod, fod yna faes maint llawn Astroturf wedi ei adeiladu yn Ysgol Tregib. Ein bwriad yw defnyddio hwn y flwyddyn nesaf ar gyfer hyfforddi er mwyn osgoi'r problemau ddaeth i'n rhan eleni gyda'r meysydd o dan ddŵr yn ystod misoedd y Gaeaf. Am y tro cyntaf mewn ychydig flynyddoedd, dylem fod yn medru hyfforddi drwy gydol y Gaeaf.

Mae defnyddio'r maes Astroturf, yn anffodus, yn debygol o gynyddu ein costau yn sylweddol ond fe fydd hefyd yn caniatáu i ni gynnal mwy o sesiynau hyfforddi. Mae'n debygol y bydd rhaid i gostau aelodaeth gynyddu er mwyn ceisio talu'r costau yma, er gobeithiwn gadw'r cynnydd yn isel.

Byddwn hefyd yn adolygu amserau'r sesiynau hyfforddi ar nos Lun ac efallai byddai'n syniad cael amserau gwahanol ar gyfer oedrannau gwahanol. Yn amlwg fe fydd hi'n anodd plesio pawb ond fe fyddem yn ddiolchgar petaech yn fodlon lleisio'ch barn fel y gallwn wneud penderfyniad cytbwys.

Tîm o dan 12 awgrymedig
Ein gobaith yw sefydlu tîm o dan ddeuddeg ar gyfer tymor nesaf ond mae yna nifer o rwystrau sydd angen eu gorchfygu. Gobeithiwn y bydd maes chwarae maint llawn gyda ni yn Nhregib; mae angen i ni nawr ymgeisio i'r Gynghrair er mwyn cael tîm o dan 12 ac mae'n rhaid iddyn nhw fod yn fodlon ein bod ni wedi cyrraedd y safon angenrheidiol. Bydd mwy o wybodaeth ar gael am y tîm o dan 12 yn hwyrach yn y flwyddyn.

Gwisg ail-law
Mewn ymdrech i wneud ein rhan dros yr amgylchfyd, codi ychydig mwy o arian ychwanegol ar gyfer y clwb a cheisio cadw costau yn isel ar gyfer rhieni, rydym yn gofyn am unrhyw wisg tîm pêl droed nad oes unrhyw un yn ei ddefnyddio mwyach sydd gennych adref. Bydd y wisg wedyn y cael ei werthu a'r elw yn mynd tuag at y clwb. Rydym yn bwriadu cynnal tri gwerthiant yn ystod y tymor nesaf ac fe fyddwn yn hysbysebu'r rhain o flaen llaw. Mae gwisg addas yn cynnwys esgidiau, coesarnau, cotiau dal dŵr, shorts a chrysau.
Hyfforddwyr
Rydym yn gobeithio adeiladu ar lwyddiant eleni ond er mwyn gwneud hyn, bydd angen amser ac ymrwymiad. Rydym o hyd yn edrych am hyfforddwyr ychwanegol felly os oes gennych ddiddordeb, rhowch wybod. Bydd y clwb yn talu am unrhyw hyfforddiant.

Iechyd a Diogelwch

Fel clwb ar gyfer plant, ein blaenoriaeth ni yw iechyd, diogelwch a lles y plant. Un maes sydd yn rhaid i ni wella yw wrth i rieni ddod â'u plant a'u casglu i fynd adref yn sesiynau hyfforddi nos Lun.

O ddechrau tymor nesaf i flynyddoedd 1, 2, 3 a 4, hoffwn petai bob rhiant yn medru gwneud yn siŵr fod yna hyfforddwr yn y sesiwn wrth iddynt adael eu plant a chasglu eu plentyn oddi wrth yr hyfforddwr hynny ar ddiwedd y noson. I flynyddoedd 5 a 6, hoffwn petai rhieni naill nai yn medru gwneud yn siŵr fod eu plentyn yn mynd yn syth at ei hyfforddwr penodedig neu fod y plentyn yn gadael yr hyfforddwr wybod ei fod yno a gadael i'r hyfforddwr hynny wybod pan maent yn gadael. Tymor nesaf, bydd yr hyfforddwyr yn hawdd i'w hadnabod er mwyn eich cynorthwyo â'r broses newydd hon.

Ac i gloi……

Gobeithiwn fod yr holl blant wedi mwynhau'r flwyddyn a bod pethau wedi rhedeg yn gymharol hwylus. Rhaid cofio mai clwb gweddol newydd ei ffurfio ydym ni ac felly mae llawer ar ôl gennym i'w ddysgu ond ar hyn o bryd mae pethau'n argoeli'n dda. Mae'n debyg y bydd nifer o newidiadau yn ystod y chwe mis nesaf ond fe fyddwn yn gwneud ein gorau yn unol â'ch cymorth chi i sicrhau na fydd gormod o aflonyddwch. Diolch am eich holl amynedd a'ch cefnogaeth, mwynhewch yr Haf a gobeithiwn eich gweld yn y tymor newydd.

Y Pwyllgor

Dyddiadau Pwysig

Twrnamaint pêl droed Sioe Llandeilo	Awst 18fed 2007 - (manylion i'w cyhoeddi)
Dechrau Tymor Nesaf	10fed Medi 2007
Cyfeiriad Safle We'r Clwb:	*www.teigrodteilo.org.uk*

Rhifyn Nesaf: Hydref 2007

Cefnogwyd gan Fenter Bro Dinefwr.